# Polisi Darpariaeth a Chefnogaeth ar Gyfer Disgyblion Anghenion Dysgu Ychwanegol

# *Policy for Provision and Support for Pupils with Additional Learning Needs*

**Diweddarwyd / *Updated*: 06/2024**
**Adolygiad Nesaf / *Next Review*: 06/2025**

**Ysgol Gymraeg Y Fenni**
Heol Dewi Sant | St. David's Road
Y Fenni | Abergavenny
Sir Fynwy | Monmouthshire
NP7 6HF

**Ffôn | Tel:** 01873 852388
**Ebost | Email:** ysgolgymraegyfenni@monmouthshire.gov.uk
**Gwefan | Website:** www.ysgolyfenni.co.uk

**Cyflwyniad**

Mae'r Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol yn rhoi ystyriaeth ofalus i’r Deddf ADY newydd. Mae gan bob plentyn sgiliau, talentau a galluoedd ac fel ysgol mae'n gyfrifoldeb arnom i ddatblygu'r rhain i'r eithaf.

Mae poblogaeth Ysgol Gymraeg y Fenni yn ffynnu ac ar hyn o bryd yn cynnwys plant sydd â cynlluniau Datblygu Unigol. Mae hefyd nifer o blant y mae eu cynnydd yn achos consyrn oherwydd ei fod yn is na'r cyfartalog. Gwnawn ein gorau i ddarparu ar gyfer y plant hyn drwy waith gwahaniaethol, lle'n bosibl, sylw unigol a/neu grŵp bychan os yn briodol neu ymyrraeth sydd wedi targedu.

Yn Ysgol Gymraeg Y Fenni, credwn:

- Bod gan blant hawl i gael addysg berthnasol ac ansawdd uchel a gynlluniwyd i alluogi disgyblion unigol i gymryd rhan lawn mewn cymdeithas a chyfrannu ati a manteisio ohoni.
- Bod gan bob plentyn hawl i gwricwlwm eang, cytbwys, perthnasol a gwahaniaethol eto heriol sy'n dangos cynnydd a chysondeb.
- Bod yr holl athrawon yn athrawon plant gydag anghenion arbennig ac yn deall eu cyfrifoldebau am ddiwallu anghenion disgyblion.
- Dylai plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gael eu cefnogi lle bo angen i sicrhau mynediad llawn i'r cwricwlwm ysgol gyfan. Bydd angen i hyn gael ei hwyluso drwy amrywiaeth o dechnolegau mynediad yn cynnwys staff medrus, offer arbenigol ac adnoddau.
- Gan fod ystod o anghenion arbennig, yn amrywio mewn graddfa o blant gydag anawsterau iechyd ysgafn i ddifrifol, i blant eithriadol o ddawnus (gweler polisi MATh), anelwn ddarparu ystod gymesur o ddarpariaeth anghenion arbennig i'r graddau a ganiateir gan lefelau'r adnoddau presennol.

Yng nghyswllt y credoau hyn, mae'r ddogfen ddilynol yn amlinellu'r ddarpariaeth sydd ar gael yn Ysgol Gymraeg y Fenni.

**Amcanion Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Yn Ysgol Gymraeg y Fenni rydym yn:

● derbyn fod pob disgybl yn gyfrifoldeb yr holl staff,

● anelu i gynyddu i'r eithaf botensial pob plentyn drwy feithrin agweddau cadarnhaol at ddysgu a darparu amgylchedd cefnogol.

● annog datblygu hunan-barch cadarnhaol.

● anelu i sicrhau y caiff pob disgybl eu hystyried yn unigol fel bod y rhaglen o astudiaeth a ddilynant yn berthnasol i'w hanghenion.

● ymdrechu i ddynodi anawsterau dysgu unigol a threfnu a thrin cefnogaeth disgyblion ar lefel briodol.

● darparu cymorth ar draws y cwricwlwm gyda phwyslais neilltuol ar sgiliau sylfaenol llafaredd, llythrennedd a rhifedd.

● defnyddio dulliau a deunyddiau sy'n addas i anghenion yr unigolyn.

● rhoi cyfle ar gyfer profiadau dysgu priodol.

● helpu dysgwyr i ddod yn hunanddilynol, gan symud ymlaen o sicrwydd cymorth agos i gymaint o annibyniaeth ag sydd modd.

● mynd ati i gefnogi cefnogaeth ac ymgyfraniad rhieni wrth gyflawni targedau addysgol, drwy eu gwahodd i fynychu adolygiadau a sicrhau eu bod yn derbyn copïau o dargedau cyfredol. Mae nhw hefyd yn rhan o greu Proffil un Dudalen y disgybl.

● gweithio gydag asiantaethau/gweithwyr proffesiynol eraill fel sy'n briodol. ● cynnwys disgyblion mewn penderfyniadau'n ymwneud â'u cynnydd a gofyn iddynt i gyfrannu i'r Proffil un dudalen.

**Rheoli Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Mrs Gemma Hughes, Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol, sy'n gyfrifol am weithrediad dydd-i-ddydd y polisi anghenion dysgu ychwanegol.

Bydd y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn:-

● goruchwylio rhedeg darpariaeth ar gyfer disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol yn cynnwys cefnogaeth dosbarth cyffredinol, grŵp bychan a disgybl unigol.

● Cynorthwyo staff dysgu wrth drefnu a thrin gwaith cynorthwywyr cefnogaeth dysgu ac athrawon cefnogaeth yr ysgol.

● cynnal cofrestr yr ysgol o ddisgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol a'r holl ddogfennau angenrheidiol.

● cynnal cofrestr ymateb graddol yr ysgol.

● cadw cofnodion ar ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a sicrhau y caiff eu cynnydd ei fonitro a'i adolygu'n rheolaidd. Sicrhau bod ymyrraeth yn cael effaith ar gynnydd plant ADY. Defnyddiwn system tracio ar y Drive i wneud hyn.

● cydlynu gyda rhieni, athrawon/gofalwyr ac asiantaethau allanol.

● cydlynu gyda'r tîm bugeiliol parthed disgyblion ar y gofrestr ADY/Ymateb graddol ar gyfer disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol (ysgolion uwchradd).

● cydlynu gyda'r Cydlynydd Llythrennedd, Cydlynydd Rhifedd, athrawon dosbarth. i sicrhau y caiff anghenion disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol eu cyflawni ar draws y cwricwlwm. ● dynodi a darparu mynediad i hyfforddiant mewn gwasanaeth i gyflawni anghenion presennol a disgwyliedig yr ysgol ac aelodau unigol o staff, yn unol â pholisi datblygiad proffesiynol yr ysgol. ● sicrhau y caiff adolygiadau blynyddol ar gyfer disgyblion gyda CDU eu cwblhau. ● trefnu cyfarfodydd fel sy'n briodol gydag athrawon dynodedig ar gyfnodau rheolaidd yng nghyswllt materion anghenion dysgu ychwanegol.



● adolygu a monitro darpariaeth yn rheolaidd ar gyfer disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol o

fewn yr ysgol.
● cymryd rhan mewn cyfarfodydd ffurfiol gydag asiantaethau allanol parthed disgyblion unigol i gael eu hasesu.
● cydlynu gydag athrawon dosbarth i sicrhau y caiff anghenion disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol eu cyflawni drwy holl bynciau'r cwricwlwm.
● yn unol â rhaglen/polisi datblygu proffesiynol yr ysgol, dynodi a rhoi mynediad i hyfforddiant mewn-gwasanaeth i gyflawni anghenion cyfredol a disgwyliedig yr ysgol ac aelodau unigol o staff. ● cwrdd gyda'r Llywodraethwr dynodedig ar gyfer anghenion addysgol arbennig pan fo angen. ● cynhyrchu adroddiad yn flynyddol i'r Llywodraethwr dynodedig ar gyfer anghenion addysgol arbennig.

**Trefniadau Derbyn**

Mae'r ysgol yn cydymffurfio gyda pholisi derbyn yr Awdurdod.
Caiff polisi derbyn yr ysgol ei weithredu yn gyfartal i bob disgybl ac nid yw'n gwahaniaethu yn erbyn unrhyw blentyn neu berson ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol. Lle mae gan ddisgybl ddatganiad o anghenion addysgol, bydd trefniadau ar wahân yn gweithredu sy'n rhoi blaenoriaeth i leoliad y disgybl.
Yn Ysgol Gymraeg y Fenni ymdrechwn, mewn partneriaeth gydag eraill, i roi cefnogaeth briodol i ddisgyblion sy'n profi anawsterau mewn:
● Cyfathrebu a rhyngweithio
● Gwybyddiaeth a dysgu
● Ymddygiad a datblygiad emosiynol a chymdeithasol
● Datblygiad synhwyraidd a/neu gorfforol
● Cyflyrau meddygol penodol

**Trefniadau ar gyfer cydlynu darpariaeth ar gyfer disgyblion gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Yn Ysgol Gymraeg y Fenni, rydym wedi dewis cyflogi cynorthwywraig er mwyn datblygu rôl o fentor dysgu er mwyn cefnogi plant Anghenion Dysgu Ychwanegol a plant Bregus ein hysgol. Rydyn ni wedi ffrwdio'r disgyblion er mwyn sicrhau'r darpariaeth gorau ar gyfer pob plentyn. Mae hyn yn cynnwys disgyblion yn gweithio mewn grwpiau bach. Mae hyn yn sicrhau bod cynorthwywyr ar gael I weithio ar dargedau unigol y plant yn reolaidd.

**Integreiddio**
Caiff yr holl blant sydd ar gofrestr yr ysgol o blant gydag anghenion addysgol arbennig/Ymateb graddol eu haddysgu wrth ochr eu cyfoedion yn y brif ffrwd.

**Cynhwysiant**
Mae gan yr ysgol gynllun mynediad sy'n amlinellu bwriadau'r ysgol i wella mynediad corfforol, mynediad i'r cwricwlwm a mynediad i wybodaeth ar gyfer disgyblion anabl ac ymwelwyr anabl. Mae gan yr ysgol fynediad i'r anabl ym mhob mynedfa a gall ddarparu cyfleusterau toiled. Mae cyfleusterau i'r anabl gyda mynediad i gadair olwyn o fewn y coridor ac yn agos i brif fynedfa'r ysgol. Mae hyn yn cynnwys toiled a addaswyd yn arbennig, basin llaw a chawod. Ar hyn o bryd nid oes gennym unrhyw ddisgyblion sy'n gaeth i gadair olwyn. Pan fo angen, rhoddir ystyriaeth i anghenion y disgybl. Yn ychwanegol dyrannwyd lleoedd parcio i'r anabl yn ymyl prif fynedfa'r ysgol.



**Dadansoddiad o Werth Gorau**

Mae'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thîm Rheoli'r Ysgol yn defnyddio dadansoddiad meintiol a hefyd ansoddol i werthuso darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol. Defnyddir y dulliau dilynol i olrhain cynnydd disgyblion a sefydlu gwerth gorau.

● Mae disgyblion a ddynodwyd gydag anghenion dysgu ychwanegol wedi gwneud cynnydd yn ôl cofnodion staff.

● Defnyddir data cymharol o brofion safonol (profion cenedlaethol a mewnol mewn Mathemateg, Cymraeg a Saesneg) fel canllawiau ar gyfer asesu gallu a photensial y disgybl.

● Drwy arsylwi ar wersi ceir adborth i asesu addasrwydd deunyddiau cwricwlwm, ansawdd a defnydd y cymorth a ddyrannwyd ar gyfer disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol. ● Monitro darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol i gasglu gwybodaeth ar ddisgyblion, staffio a systemau, monitro parhaus gan y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol, trafodaethau gydag athrawon dosbarth a rhyddhau'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gyfer monitro. ● Y cydlynydd ADY i dracio cynnydd yn ôl system tracio ymyrraeth yr ysgol/Traciw ar draws y Camau cynnydd a'r FfLlRh.

**Cynllunio ar gyfer y Dyfodol**

Caiff cynllunio darpariaeth yn y dyfodol ar gyfer disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol ei gynnal yn unol ag:

● Olrhain parhaus ar gynnydd disgyblion

● Gwerthusiad parhaus o werth gorau

● Lwfans cyllideb flynyddol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol

● Cyfarwyddebau parhaus yr Awdurdod a'r Llywodraeth

**Ymyrraeth Cyffredinol/ Grwpiau Targed/ Aml-Asiantaethol**

**Dynodiad**

Byddai'r dynodiad yng nghyswllt y wybodaeth a amlinellir yn y Côd Ymarfer. Gallai'r sbardunau ar gyfer Ymyrraeth Cyffredinol/ Grwpiau Targed/ Aml-Asiantaethol dod o'r athrawon neu gonsyrn rhywrai eraill, a seiliwyd gan dystiolaeth, am blentyn sydd er yn derbyn cyfleoedd dysgu gwahaniaethol yn: ● Gwneud ychydig neu ddim cynnydd hyd yn oed pan gaiff dulliau addysgu eu targedu yn neilltuol ym maes gwendid dynodedig y plentyn.

● Dangos arwyddion o anhawster wrth ddatblygu sgiliau llythrennedd neu fathemateg sy'n arwain at gyrhaeddiad gwael mewn rhai meysydd cwricwlwm.

● Cyflwyno anawsterau emosiynol neu ymddygiadol cyson na chaiff eu lliniaru gan y technegau rheoli ymddygiad a ddefnyddir fel arfer yn yr ysgol.

● Sydd ag anawsterau cyfathrebu a/neu ryngweithio ac sy'n parhau i wneud ychydig neu ddim cynnydd er darpariaeth cwricwlwm gwahaniaethol.

● Gall casglu gwybodaeth yng nghyswllt dynodi anghenion dysgu ychwanegol y disgybl fod drwy: ● Cydlynu gyda rhieni/gofalwyr mewn cyfarfodydd rhieni yn yr ysgol a chyswllt unigol. ● Cydlynu gydag athrawon.

● Cydlynu gyda darpariaeth feithrin neu ar gyfer disgyblion newydd sy'n cyrraedd, cydlynu gyda'r ysgol flaenorol.

● Cydlynu gyda gweithwyr proffesiynol/asiantaethau allanol eraill lle gall y gwasanaeth fod yn gwybod am y disgyblion.



**Asesu Angen**

● *Gwybodaeth gan ysgolion blaenorol.*

● *Asesiadau ysgol gyfan i* sicrhau cynnydd academaidd mae'r ysgol yn defnyddio deunyddiau prawf a gyhoeddwyd fel rhan o wythnosau asesu..

● *BPVS.*

● *Wellcomm*
● *Sylwadau a dadansoddiad cynnydd gan athrawon cynnydd* a gofrestrwyd drwy: ● *Targedau athrawon dosbarth*
● *Marcio/asesiad parhaus athrawon dosbarth* (Mae athrawon yn cadw cofnodion cyfredol o gyflwyniadau plant )
● *Adroddiad Diwedd Blwyddyn* a drosglwyddir i'r athro perthnasol
● *Proffil Unigol Disgybl ar Taith 360*
● *Traciwr*
● *Disgyblion a atgyfeiriwyd gan athrawon dosbarth trwy'r system Togs lle y dylid eu cynnwys ar y gofrestr ADY/ Ymateb graddol.*
● *Asesiad, adolygu a chadw cofnodion parhaus yn unol gyda threfniadaeth yr ysgol o'r Cod Ymarfer.*

**Proses ar gyfer Gweithredu, Cadw Cofnodion ac Adolygu**

Pan atgyfeirir i'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol:

1. Casglu gwybodaeth briodol gan y staff sy'n addysgu'r disgybl, staff cefnogaeth ac unrhyw aelod arall o staff a all fod â gwybodaeth bellach.
2. Cynnal trafodaeth gyda'r rhieni/gofalwyr i gasglu gwybodaeth briodol/perthnasol ar y plentyn a chael caniatâd ysgrifenedig i roi'r plentyn ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol/Cofrestr ymateb graddol.
3. Cynllun ymyrraeth / Cynllun Datblygu Unigol. O'r wybodaeth a gesglir, mae'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r athro dosbarth yn trafod anghenion y disgybl gyda'r plentyn a rhieni/gofalwyr a, lle'n briodol, pan gytunir, yn cyhoeddi targedau Cynllun Ymyrraeth neu Cynllun Datblygu Unigol gyda gwybodaeth am y plentyn ar y Proffil Unigol Disgybl. Caiff y gefnogaeth a ddarperir i'r plentyn ei nodi ar y Cynllun ymyrraeth / Cynllun Datblygu Unigol. (Bydd y plentyn yn parhau i gael ei fonitro gan yr athro dosbarth lle nad oes angen Cynllun ymyrraeth / Cynllun Datblygu Unigol).
4. Adolygu/Gwerthuso. Gyda chefnogaeth gan y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r cymhorthydd addysg lefel uwch, mae'r athro dosbarth yn casglu gwybodaeth o adroddiadau'r disgybl a sylwadau staff, yn casglu gwybodaeth ac yn trafod y cynnydd yma gyda'r disgybl a'r rhieni. Un ai caiff y Cynllun ymyrraeth / Cynllun Datblygu Unigol ei ffurfio neu cytunir tynnu'r disgybl o'r Gofrestr Anghenion Datblygu Ychwanegol a gedwir ar gyfer disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol.
5. Mae'r athro dosbarth yn cyhoeddi Cynllun ymyrraeth / Cynllun Datblygu Unigol newydd ac un ai'n parhau gyda'r cylch neu'n symud ymlaen i ofyn am gyngor gan weithwyr proffesiynol eraill. 6. Ceisir cyngor gan weithwyr proffesiynol eraill am yr anghenion dysgu ychwanegol, adnoddau priodol a chamau gweithredu posibl i'w cymryd fel rhan o Ymyrraeth Cyffredinol/ Grwpiau Targed/ Aml-Asiantaethol.

**Gwerthuso Llwyddiant**

**Cadw cofnodion**

Bydd cofnodion yr ysgol ar gyfer disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol yn cynnwys ymatebion yr ysgol ar bob cam a'r wybodaeth a gesglir yn y cyfarfodydd adolygu. Bydd cyfuniad priodol o'r wybodaeth ddilynol parthed disgyblion unigol ar gael ar gyfer craffu ar unrhyw amser:



● Disgrifiad a natur anawsterau disgybl.
● Strategaethau i gael eu defnyddio.
● Cynllun ymyrraeth / Cynllun Datblygu Unigol.
● Gwerthusiad o gynllun ymyrraeth / Cynllun Datblygu Unigol.
● Adolygiadau.

● Cofnodion o'r cymorth y gofynnwyd amdano.
● Adroddiadau gan yr holl weithwyr proffesiynol eraill cysylltiedig.

**Cyfranogiad Disgyblion**

Credwn fod gan bob plentyn a pherson ifanc hawl i gymryd rhan yn y penderfyniadau a wneir am eu haddysg. Rhoddwn ystyriaeth i oedran, aeddfedrwydd a dealltwriaeth y plentyn.
Caiff disgyblion eu cynnwys mewn Adolygiadau Blynyddol a phan wneir penderfyniadau i: ● Ysgrifennu targedau newydd ar gyfer Cynlluniau Datblygu Unigol
● Adolygu targedau
● Cynnydd/gostwng lefel y cymorth
● Dewis ysgol newydd
● Creu cynllun yn barod ar gyfer tymor yr Haf ac i hwyluso pontio ar gyfer tymor yr Hydref.

**Partneriaeth Rhieni/Gofalwyr**

Mae rhieni/gofalwyr yn bartneriaid yn addysg eu plentyn a rhoddir gwybodaeth lawn iddynt. Cysylltir â nhw'n uniongyrchol os bydd unrhyw newid yng nghynnydd neu ymddygiad eu plentyn neu'r ddarpariaeth addysgol o fewn yr ysgol. Y broses ar gyfer cysylltu gyda rhieni/gofalwyr yng nghyswllt disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol fydd:
1. Y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r athro dosbarth i gwrdd gyda rhieni/gofalwyr i drafod lleoliad disgybl Ymyrraeth Cyffredinol/ Grwpiau Targed/ Aml-Asiantaethol.
2. Rhan o gylch adolygiadau a gynhelir ar ddyddiadau a drefnwyd ar ddiwedd y tymor. 3. Y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol ac athro dosbarth i drefnu cyfarfodydd/adolygiadau ychwanegol lle'n briodol neu lle gall fod pryder am gynnydd disgybl.
4. Pennaeth yr Ysgol, y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r athro dosbarth i gwrdd gyda rhieni/gofalwyr lle gwneir cais am asesiad ffurfiol.
5. Yn ogystal â'r adolygiadau ac mewn nosweithiau rhieni, gwahoddir y rhieni/gofalwyr hynny sydd â phlentyn gyda CDUl i gyfarfod adolygu blynyddol.

Ymhellach i hyn, mae'r ysgol yn gweithredu polisi ysgol agored lle caiff rhieni eu hannog i ofyn am gais am drafodaeth anffurfiol neu gyfarfod a drefnwyd ar amserau cyfleus i bawb. Mae ganddynt yr hawl i fynediad i'r cofnodion yn ymwneud â'u plentyn eu hunain a dogfennau ysgol priodol ar amser a gytunwyd.

**Monitro Darpariaeth**

Mae'r wybodaeth ddilynol ar gael o fewn yr ysgol yng nghyswllt effeithlonrwydd y cymorth sydd ar gael ar gyfer disgyblion a ddynodwyd. Ceir yr wybodaeth o fonitro a gwerthusiad drwy arsylwi: ● Addysgu dosbarth/grŵp cyfan
● Addysgu grŵp bychan/unigolyn
● Grwpiau ymyrraeth
● Cymorth yn y dosbarth
● Defnyddio addysgu gwahaniaethol/adnoddau/offer arbenigol
● Defnydd ymarferol o Gynlluniau Datblygu Unigol
● Gosod targedau
● Cynnydd disgyblion



● Craffu ar lyfrau disgyblion ADY a siarad efo dysgwyr ADY
● Edukey

**Gwerth Ychwanegol**

Mae cysyniad 'gwerth ychwanegol' yn un pwysig i Ysgol Gymraeg y Fenni a chaiff ei fonitro gan gyflawniadau disgyblion yng nghyswllt asesiadau a chanlyniadau yn y ffyrdd dilynol: ● Cyflawni targedau Cynlluniau Datblygu Unigol

● Arholiadau/profion, yn seiliedig yn yr ysgol ac yn allanol

● Taith 360

Mae'r wybodaeth hon yn werthfawr wrth ystyried cynnydd disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol.

**Cofrestr Anghenion Dysgu Ychwanegol/Ymateb graddol**

Lluniwyd cofrestr o blant y dynodwyd fod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol. Fe'i trefnwyd yn adrannau yn ôl y fathau o anghenion sydd ganddynt a'r ymyrraeth mae nhw'n derbyn. Mae cofrestr ADY gyda plant sydd ar IDP mewnol ac mae cofrestr ymateb graddol ar wahan sy'n cynnwys plant sy'n derbyn lefelau gwahanol o ymyrraeth. Cedwir copi o'r gofrestr yn ganolig ar y drive o dan ffeil Anghenion Dysgu Ychwanegol.

**Mynediad i'r Cwricwlwm**

Yn Ysgol Gymraeg y Fenni credwn fod gan bob disgybl hawl i ystod lawn o gyfleoedd cwricwlwm. Mae amrywiol weithgareddau allgwriciwlaidd ar gael ar gyfer disgyblion). Fodd bynnag, er budd gorau'r plentyn, gall fod achlysuron neu gyfnodau pan mai'r datrysiad gorau yw encilio ar gyfer addysgu rhaglen dwys arbennig.

Bydd rhieni a disgyblion bob amser yn cymryd rhan mewn trafodaethau pan fo'r sefyllfaoedd hyn yn codi a bydd lles y disgybl yn ffactor bwysig a gaiff ei ystyried pan wneir penderfyniadau. Yn Ysgol Gymraeg y Fenni rydym wedi llunio cynlluniau gwaith a drefnwyd i ddarparu ar gyfer plant gydag anghenion dysgu ychwanegol. Mae athrawon dosbarth yn gwahaniaethu eu gwersi i ddiwallu anghenion yr unigolion yn eu dosbarthiadau. Defnyddir ystod o strategaethau a dulliau addysgu i alluogi plant i gymryd rhan lawn ar eu lefel.

Rhoddir cyfleoedd ar gyfer cymorth unigol/grŵp bychan/ymyrraeth fel sy'n briodol. Dynodir gwahaniaethu ar ddalenni cynllunio. Lle mae gweithwyr proffesiynol yn ymwneud gyda phlentyn, cedwir cyswllt agos rhwng staff ymgynghori, athrawon dosbarth a rhieni i leihau ymyriad i'r plant.

**Datgymhwysiad**

Ni chaiff unrhyw blant yn y brif ffrwd eu datgymhwyso o unrhyw agwedd o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, os nad yw'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol a Phennaeth yr Ysgol yn barnu fod angen hynny. Weithiau mae gan blant gwricwlwm Addysg Grefyddol cyfyngedig i barchu dymuniadau a chredoau rhieni.

**Gwerthuso llwyddiant y Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Bydd y nodau ac amcanion a amlinellir ar ddechrau'r polisi yn gosod y sylfaen ar gyfer gwerthuso.

**Cofnodion Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Bydd cofnodion Anghenion Dysgu Ychwanegol yr ysgol yn casglu ac yn cofnodi ymatebion yr ysgol ar bob cam a'r wybodaeth a gasglwyd mewn cyfarfodydd adolygu'n cael eu cynnwys. Bydd cyfuniad priodol o'r wybodaeth ddilynol yn ymwneud â disgyblion unigol ar gael yn yr ysgol i'w craffu ar unrhyw amser. Map darpariaeth

Strategaethau i gael eu defnyddio

Cynllun ymyrraeth ar Edukey/ Cynllun Datblygu Unigol.

Gwerthusiad Cynllun ymyrraeth / Cynllun Datblygu Unigol.



Adolygiadau

Adroddiadau gan asiantaethau allanol

**Rôl Llywodraethwyr**

Mae Ysgol Gymraeg y Fenni wedi penodi Llywodraethwr Anghenion Dysgu Ychwanegol.Cadeirydd y Llywodraethwyr yn cwrdd â'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol a Phennaeth yr Ysgol pan fo'r angen i drafod materion Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae Cadeirydd Y Llywodraethwyr yn gyfrifol am hysbysu'r Corff Llywodraethu llawn am y materion hyn.

Mae gan yr holl Gorff Llywodraethu gyfrifoldeb am gynhyrchu adroddiad blynyddol fydd yn nodi nifer y disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol yn yr ysgol a rhoi sylw ar effeithlonrwydd yr ysgol wrth weithredu'r polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol yng nghyswllt:

1. Anghenion Dysgu Ychwanegol fel rhan integrol o'r cynllun datblygu ysgol.
2. Dynodi angen.
3. Hysbysu rhieni/gofalwyr plentyn y bernir bod ganddo/ganddi anghenion dysgu ychwanegol. 4. Asesu angen
5. Darparu cyfarfod.
6. Darparu amgylchedd cynhwysol i bawb.
7. Dulliau monitro, cofnodi ac adrodd.
8. Cyllid a gwariant Anghenion Dysgu Ychwanegol.
9. Defnyddio offer, personél ac adnoddau.
10. Y defnydd a wnaiff yr ysgol o weithwyr proffesiynol eraill a gwasanaethau cymorth. Pennaeth yr Ysgol sy'n gyfrifol am reolaeth dydd i ddydd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion gydag Anghenion Dysgu Unigol. Bydd yn gweithio'n agos gyda'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol a bydd yn rhoi gwybodaeth lawn i'r Corff Llywodraethu.

Bydd y Corff Llywodraethu yn:

- Gwneud eu gorau i sicrhau y gwneir y ddarpariaeth angenrheidiol ar gyfer unrhyw ddisgybl sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- Sicrhau lle mae'r Awdurdod Addysg Lleol wedi hysbysu Pennaeth yr Ysgol neu Lywodraethwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol fod gan y disgybl anghenion addysgol ychwanegol, y caiff yr anghenion hynny eu hysbysu i bawb sy'n debygol o addysgu'r disgybl
- Sicrhau fod athrawon yn yr ysgol yn gwybod am bwysigrwydd dynodi a darparu ar gyfer y disgyblion hynny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol
- Ymgynghori â'r Awdurdod Addysg Lleol a chyrff llywodraethu ysgolion arbennig lle ymddengys iddynt fod hynny'n angenrheidiol neu'n ddymunol er budd darpariaeth addysgol arbennig gydlynol yn yr ardal yn gyffredinol.
- Sicrhau y bydd disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol yn gweithio wrth ochr disgyblion nad oes ganddynt anghenion addysgol arbennig i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol a chyson gyda'r disgybl sy'n derbyn y ddarpariaeth addysgol arbennig angenrheidiol, addysg effeithiol plant eraill yn yr ysgol a defnydd effeithiol o adnoddau.
- Rhoi ystyriaeth i'r Cod Ymarfer wrth gyflawni eu dyletswyddau tuag at bob disgybl gydag anghenion addysgol arbennig.

Mae gan yr holl Gorff Llywodraethu gyfrifoldeb am gynhyrchu adroddiad blynyddol fydd yn nodi nifer y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn yr ysgol a rhoi sylwadau ar effeithlonrwydd yr ysgol wrth weithredu'r polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol yng nghyswllt:

i. Dynodi anghenion
ii. Hysbysiad i rieni plentyn y bernir fod ganddo/ganddi Anghenion Dysgu Ychwanegol iii. Asesiad angen.
iv. Darpariaeth ar gyfer cyflawni Anghenion Dysgu Ychwanegol.



v. Darpariaeth amgylchedd cynhwysol i bawb.
vi. Dulliau monitro, cofnodi ac adrodd,

vii. Cyllid a gwariant ar Anghenion Dysgu Ychwanegol.
viii. Defnyddio offer, personél ac adnoddau.
ix. Defnydd yr ysgol o asiantaethau a gwasanaethau cymorth allanol.
x. Anghenion Dysgu Ychwanegol fel rhan gyfannol o gynllun datblygu'r ysgol.

**Partneriaeth gyda Rhieni**

**Cyswllt gyda Rhieni**
Yn Ysgol Gymraeg y Fenni credwn fod yr ysgol yn rhan gyfannol o'r gymuned leol a rhoddwn werth uchel ar gyfraniad ac ymgyfraniad rhieni a thad-cuod a mam-guod. Croesawn y cyfle i wrando ar rieni a'r rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant a thrafod unrhyw bryderon arnynt. Rydym yn annog ymgyfraniad mewn ystafelloedd dosbarth a chyfranogiad mewn prosiectau cartref-ysgol.

Yng nghyswllt rhieni gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol, anelwn roi ystyriaeth i ddymuniadau, teimladau a gwybodaeth rhieni ar bob cam er mwyn gwneud asesiadau gwybodus o anghenion unigol a chofnodi ymatebion i amrywiaeth o gamau gweithredu a gynlluniwyd yn ofalus.

Yn Ysgol Gymraeg y Fenni caiff rhieni eu hystyried fel partneriaid yn addysg eu plant a chânt wybodaeth lawn am hyn. Cysylltir â nhw'n uniongyrchol os bydd unrhyw newid yng nghynnydd neu ymddygiad eu plentyn neu ddarpariaeth addysgol o fewn yr ysgol. Y broses ar gyfer cyswllt gyda rhieni yng nghyswllt disgyblion sydd ag anghenion addysgol ychwanegol fydd:

1. Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol, Athro Dosbarth a Phennaeth yr Ysgol, lle'n briodol, i gwrdd gyda rhieni i drafod lleoliad disgybl ar lefel Ymyrraeth Cyffredinol/ Grwpiau Targed/ Aml-Asiantaethol.
2. Rhan o gylch adolygiadau i'w cynnal ar ddyddiadau a drefnwyd ar ddiwedd y tymor. 3. Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol a Phennaeth yr Ysgol i symbylu cynnal cyfarfodydd/adolygiadau ychwanegol lle'n briodol neu lle gall fod consyrn am gynnydd disgybl. 4. Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol i gwrdd gyda'r rhieni lle bo angen Cynllun Datblygu unigol. 5. Yn ogystal â'r adolygiadau/nosweithiau rhieni, caiff y rhieni hynny sydd â phlentyn gyda CDUl eu gwahodd i gyfarfod Adolygiad Blynyddol.

**Trefniadau ar gyfer cwynion am ddarpariaeth addysgol ychwanegol**
Mae Pennaeth a staff Ysgol Gymraeg y Fenni yn croesawu barn rhieni a'r rhai gyda chyfrifoldeb rhiant ac yn agored i gwestiynau am sut y gwnawn bethau yn yr ysgol a'r hyn a ystyriwn yn bwysig. Dylai rhieni a all deimlo'n anhapus gydag unrhyw beth a wnaiff yr ysgol wrth ddelio gyda'u plentyn gysylltu â'r ysgol i drafod eu pryderon gydag athro dosbarth eu plentyn, Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yr ysgol a Phennaeth yr Ysgol. Caiff y gŵyn ei chofrestru yn yr ysgol a gwneir pob ymdrech i drin y pryderon a fynegwyd. Ar ôl gwneud penderfyniad am sut i drin y broblem, caiff ei hysgrifennu i lawr a'i rhoi ar record gyda dogfennau'r plentyn yn ffeil Anghenion Dysgu Ychwanegol personol y disgybl. Os nad yw rhieni'n teimlo eu bod yn fodlon fod cwyn wedi eu datrys, dylent ofyn i Bennaeth yr ysgol esbonio gweithdrefn gwynion yr Awdurdod Addysg Lleol.



Ar gyfer cwynion sy'n ymwneud â Datganiad Anghenion Dysgu Ychwanegol plentyn, gall rhieni ddymuno siarad gyda'r "Person a Enwir" ar ddatganiad eu plentyn yn ogystal â staff yr ysgol. Mae'r Person a Enwir yn

rhywun sy'n rhoi cyngor annibynnol, gwybodaeth a chymorth i rieni ac yn eu helpu i gyflwyno eu sylwadau. Gall hyn ddod gan fudiad gwirfoddol neu grŵp cefnogaeth rhieni neu gan weithiwr proffesiynol, ffrind neu berthynas. Gellir cael gwybodaeth bellach am y Person a Enwir gan y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol. Eto, bydd staff yn hapus i drafod pryderon y rhieni a gobeithio y gellir datrys unrhyw anawsterau yn gyflym, Fodd bynnag, os na fedrir dod i gytundeb gyda'r Awdurdod Addysg Lleol, mae gan rieni hawl apelio i'r Tribiwnlys Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae'r Tribiwnlys yn ystyried apeliadau rhieni yn erbyn penderfyniadau'r Awdurdod Addysg Lleol am Anghenion Dysgu Ychwanegol eu plentyn. Gellir cael manylion pellach am y Tribiwnlys Anghenion Dysgu Ychwanegol gan y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol

**Trefniadau ar gyfer Hyfforddiant Mewn-Swydd Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Mae hyfforddiant mewnol ar gael yng nghyswllt Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gyfer yr ysgol gyfan neu aelodau unigol o staff. Trefnir darparu hyfforddiant lle mae angen cydnabyddedig a bydd yn cydymffurfio â Chynllun Datblygu yr ysgol. Caiff ei gyflwyno gan un o'r dilynol :

- Aelodau unigol o staff o fewn yr ysgol sydd ag arbenigedd dynodedig
- Gwasanaethau cymorth yr Awdurdod
- Ymgynghorwyr/hyfforddwyr allanol

Bydd y Pennaeth yn cadw cofnod o'r holl hyfforddiant Anghenion Dysgu Ychwanegol a gyflwynir a gwerthusiadau dilynol.

**Gweithwyr Proffesiynol Eraill a Gwasanaethau Cymorth**

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gydag asiantaethau eraill i ganolbwyntio ar ddynodiad a darpariaeth ar gyfer y plant hynny sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Ystyrir fod pob gwasanaeth sy'n gysylltiedig gyda'r ysgol yn rhan o bartneriaeth waith sydd â'r nod o ddarparu, fel yr amlygir yn y Cod Ymarfer, gymorth holistig integredig ac ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar anghenion y plentyn.

Mae'r gwasanaethau/asiantaethau dilynol ar gael i/yn ymwneud gyda'r ysgol

- Seicoleg addysgol
- Gwasanaeth Lles Addysg
- Cymorth emosiynol ac ymddygiad
- Gwasanaethau iechyd
- Amhariad ar y clyw
- Amhariad ar y golwg
- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)
- Mudiadau gwirfoddol: SNAP
- Gwasanaeth Anhawsterau Dysgu Penodol
- 21 plus
- SPACE
- In reach
- EST
- Mosts

**Cysylltiadau gydag ysgolion eraill**

Mae Ysgol Gymraeg y Fenni yn rhan o grŵp clwstwr o ysgolion cynradd ar gyfer Ysgol Gyfun Gwynllyw, Crickhowell, Sir Fynwy ac Ysgol Brenin Harri VIII sy'n gefnogol a chroesawgar. Caiff plant ym mlynyddoedd 5 a 6 gyfleoedd i ymweld â'r ysgolion cyfun. Mae'r gweithwyr proffesiynol cysylltiedig bob amser yn cyfnewid

gwybodaeth. Lle bynnag sy'n bosibl, bydd gweithiwr proffesiynol allweddol o'r ysgol newydd yn dod ar ymweliad.

**Adnoddau**

Ffoneg Ffantastig
Read, Write Inc
Wellcomm
Nessy
Spelling Mastery
Wordshark
ELSA
DarllenCo
Therapi Lego
Drawing and Talking
Precision Teaching
Literacy Junction

Diweddarwyd: Mehefin 2024

Dyddiad Adolygu: Mehefin 2025

Arwyddwyd ________________________

Cadeirydd y Llywodraethwyr